Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

AFA CYMRU
association for fostering and adoption
cymdeithas ar gyfer maethu a mabwysiadu

## SEFYDLOGRWYDD CYNNAR CYMRU

# Gwybodaeth i Rieni

### GWYBODAETH I RIENI SY'N YSTYRIED ILDIO'U PLENTYN I'W FABWYSIADU

Rydym yn eich cynghori'n gryf i drafod y daflen hon gyda'ch cyfreithiwr os oes un gennych, a bydd yn gallu siarad â chi am y math hwn o leoliad maethu. Os oes cyfreithiwr gennych, gallwn anfon gwybodaeth am Sefydlogrwydd Cynnar Cymru atynt, gan gynnwys y daflen hon.

## BETH YW SEFYDLOGRWYDD CYNNAR CYMRU?

Mae hwn yn lleoliad maethu gyda theulu a gymeradwywyd fel gofalwyr maeth ac fel rhieni mabwysiadol. Mae'r teuluoedd hyn wedi ymrwymo i'r plant gael eu dychwelyd at eu rhieni os ydych yn penderfynu mai dyna beth sy'n iawn i'ch plentyn, neu os yw'n cael ei osod gydag aelod arall o'r teulu. Ond, os ydych yn penderfynu eich bod yn dymuno i'ch plentyn gael ei fabwysiadu yna mae'r gofalwyr hyn yn barod i gynnig sicrwydd lleoliad mabwysiadu i'ch plentyn heb iddynt orfod symud eto.

### Pam mae hyn yn cael ei ystyried ar gyfer fy mhlentyn?

Rydym yn gwybod bod symud plant nifer o weithiau yn ansefydlogi'r plentyn yn fawr iawn, yn enwedig os oes rhaid iddynt symud eto o'u gofalwyr maeth at rieni mabwysiadol. Nod Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yw lleihau'r nifer o weithiau y mae'n rhaid symud plant a'r nifer o newidiadau y mae'n rhaid iddynt eu hwynebu, fel bod y plentyn yn cael y gofal gorau posibl tra bod penderfyniadau'n cael eu gwneud am ei ddyfodol hirdymor.

### Sut y mae gofalwyr Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yn cael eu dewis ac a ydynt yn cael eu paratoi'n dda?

Mae gofalwyr Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yn cael eu paratoi'n dda iawn a'u hasesu'n ofalus. Byddant yn cael eu paru'n ofalus gyda'ch plentyn ar sail y wybodaeth sydd gennym amdanyn nhw a'ch plentyn, felly mae'n bwysig eich bod yn rhannu unrhyw wybodaeth fydd yn eu helpu i gynnig y gofal gorau posibl i'ch plentyn, e.e. unrhyw faterion iechyd sydd yn y teulu, neu berthnasoedd pwysig.

Byddant yn deall y gallai'ch plentyn ddychwelyd atoch chi neu at aelod o'r teulu, ond y gallai'r plentyn fod ar gael i'w fabwysiadu hefyd, ac y byddent yna'n dod yn ddarpar rieni mabwysiadol i'r plentyn.

### Beth mae hyn yn ei olygu i fi?

Mae'r lleoliad hwn yn lleoliad maethu arferol i ddechrau, a bydd y gofalwyr yn hwyluso cyswllt fel y bydd wedi ei gytuno a'i drefnu gyda'r awdurdod lleol. Mae'r lleoliad maethu yn newid i fod yn lleoliad mabwysiadu unwaith y byddwch wedi rhoi caniatâd iawn i'ch plentyn gael ei fabwysiadu, wedi'i dystio gan swyddog o Cafcass Cymru, ac yn dilyn argymhelliad a phenderfyniad y panel mabwysiadu a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn yr asiantaeth i baru eich plentyn gyda'r darpar fabwysiadwyr hyn. Nid yw'r ffaith y gallai'ch plentyn gael ei leoli mewn lleoliad Sefydlogrwydd Cynnar Cymru, yn effeithio ar eich hawl i ofyn am eich plentyn yn ôl, naill ai o dan a31 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 cyn i chi roi caniatâd neu os yw'r plentyn yn ifancach na 6 wythnos oed, neu dan a32 unwaith y byddwch wedi rhoi caniatâd ffurfiol. Os oes unrhyw amheuaeth, dylech drafod hyn gyda'ch gweithiwr cymdeithasol a/neu geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

Gobeithiwn y byddwch yn teimlo'n hyderus y bydd y gofalwyr hyn yn rhoi'r cariad a'r sicrwydd y mae ar eich plentyn eu hangen. Gobeithiwn y byddwch yn teimlo bod y gofalwyr yn eich parchu ac yn eich deall ac y byddant yn gallu dweud wrth y plentyn amdanoch chi a'ch cariad tuag ato.